Crynodeb Prosiect Anhechnegol

Rhagarweiniad

Penodwyd Asbri Planning Ltd i gynnal ymgynghoriad 28 diwrnod ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol ar gyfer datblygiad i Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr.

Lleoliad a Disgrifiad o'r Safle

Mae safle'r ysgol wedi'i leoli ym mhentref Cwmdâr, ar ochr ogledd-orllewinol Aberdâr. Mae'r safle o fewn ardal breswyl, wedi'i amgylchynu gan dai i'r de, gorllewin a dwyrain, a Chartref Cymunedol Bryndâr i'r gogledd. I'r gorllewin mae Rhodfa'r Tresi Aur yn ffinio â'r ysgol ac i'r dwyrain mae Rhodfa'r Ceirios a Llys y Ceirios. Ymhellach i'r dwyrain mae Parc Aberdâr.

Mae safle'r ysgol yn cynnwys adeilad a godwyd yn 2003 a dwy uned ychwanegol, adeiladwyd yn 2006. Mae'r adeiladau presennol yn annigonol ar gyfer cwrdd â chynlluniau i ehangu'r ysgol yn y dyfodol. Capasiti'r ysgol ar hyn o bryd yw 372 o ddisgyblion, ynghyd â 60 o leoedd meithrin.

Y Datblygiad arfaethedig

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dymuno ymestyn y ddarpariaeth addysg yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr. Mae'r datblygiad yn cynnwys adeiladu estyniad rhannol deulawr rhannol unllawr i greu estyniadau i'r ystafelloedd dosbarth a'r neuadd ynghyd ag adeilad newydd cwbl hygyrch ar gyfer cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg ac estyniad i'r maes parcio. Nod y datblygiad yw cynyddu capasiti'r ysgol i 420 o ddisgyblion ynghyd â 60 o leoedd meithrin. Mae'r datblygiad yn cynnwys cael gwared ar yr unedau presennol yn dilyn y gwaith adeiladu.

Mae'r datblygiad yn cynnwys man chwarae wyneb caled ychwanegol. Bydd hyn yn disodli rhan o'r cae chwarae sydd wedi'i leoli i'r de o'r ysgol nad yw'r ysgol yn gallu defnyddio am ran fwyaf o'r flwyddyn oherwydd effeithiau tywydd gwael.

Bydd maes parcio'r ysgol yn cael ei ymestyn fel rhan o'r cynllun. Mae parsel o dir sy'n eiddo i'r cyngor, ar safle Cartref Cymunedol Bryndar, wedi'i nodi ar gyfer yr ardal barcio estynedig. Cyfanswm y ddarpariaeth barcio ar gyfer yr ysgol estynedig fydd 42 lle. Mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o 19 lle o'r 23 lle presennol. Cynigir hefyd i'r ddarpariaeth parcio beiciau gynyddu fel rhan o'r datblygiad.

Bydd prif fynedfa'r safle i gerbydau a cherddwyr yn parhau i fod trwy Rhodfa'r Tresi Aur. Cynigir darparu mynediad i gerddwyr ychwanegol ar Lys y Ceirios. Bydd y mynediad newydd hwn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan y plant hynny sy'n mynychu'r cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd.

Mae Datganiad Trafnidiaeth yn cefnogi ac yn llywio'r datblygiad hwn. Mae'r ddogfen ar gael i'w darllen fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Dogfennau Ategol

Gan mai ymarfer ymgynghori cynnar yw hwn, mae nifer o adroddiadau technegol wrthi'n cael eu paratoi. Bydd y dogfennau hyn ar gael i'w hadolygu fel rhan o'r cais cynllunio ffurfiol a byddant yn cynnwys:

- Datganiad Dylunio a Mynediad;
- Adroddiad Ecoleg;
- Adroddiad Coed;
- Adroddiad Traeniad;
- Adroddiad Ymchwiliad Safle;
- Adroddiad Archeolegol.